**PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2011**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Eurfryn G. Davies, W. I. Hughes, Eric Jones, Eric Roberts, P. S. Rogers, Ieuan Williams, John Penri Williams. |
| **WRTH LAW**: | Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) (JHJ)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Hamdden)<br>Rheolydd Comisiynu Strategol a Busnes (AH)<br>Rheolydd Cynllunio Busnes a Rhaglen (GM)<br>Rheolydd Gwasanaethau Cyfieithu (JT)<br>Swyddog Cyswllt a Chefnogaeth Sgriwtini (CT)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr D. R. Hughes, G. O. Parry MBE<br>M. Giannassi, B. Symonds |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ken Hughes (Aelod Portffolio – Gwasanaethau Cymdeithasol). |

---

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Gwnaed datganiad o ddiddordeb gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) mewn perthynas ag Eitem 6 ar y Rhaglen – Cynllun Gweithredu'r Uned Gyfieithu.

## 2 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2011 fel rhai cywir yn amodol ar y newidiadau isod:-

Eitem 3 - Penderfyniad (i) - ... *yn gwahaniaethu'n glir* ***rhwng bygythiadau allanol a gwendidau mewnol***
Eitem 3 – Penderfyniad (iii) - ...*bod y Cofrestrau Risg* ***Corfforaethol*** *yn cael eu sgriwtineiddio..*

## 3 CYTUNDEBAU CANLYNIADAU

Cyflwynodd y Rheolydd Cynllunio Busnes a Rhaglen adroddiad ar Gytundebau Canlyniadau hyd at ddiwedd Ebrill 2011 sy'n rhan o'r Cytundebau Gwella 3 blynedd am y cyfnod 2010-13. Dywedodd fod raid i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r broses o dri safbwynt h.y. monitro'r gwaith, archwilio prosesau a systemau a cheisio gwelliannau. Cyfeiriodd at y 10 o themâu strategol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ac esboniodd y meini prawf ar gyfer bod yn gymwys i dderbyn grant a'r system sgorio. Tynnodd sylw at yr hunanasesiadau a wnaed ar y themâu ac adroddodd ar y canlyniadau. Dywedodd y byddai'r Adain Archwilio Mewnol yn gwerthuso'r systemau a'r prosesau yn y gwasanaethau i gasglu a rheoli data perfformiad mewn perthynas â Chytundebau Canlyniadau.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Hamdden) ar un thema nad oedd wedi bod yn gwbl lwyddiannus ond rhoddodd sicrwydd i'r aelodau mai'r rheswm am hynny oedd bod y targed yn rhy uchel yn y lle cyntaf. Dywedodd fod gwersi wedi eu dysgu ac y byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau na fyddai'r fath gamgymeriad yn digwydd eto. Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am fod yn agored a rhoddwyd sicrwydd iddo y bydd aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i

wella canlyniadau.  Cyfeiriwyd at ddull integredig o ran cynnal clybiau ieuenctid mewn mannau canolog yn yr ardaloedd gwledig a darparu cludiant i'r bobl ifanc fynychu.  Dywedodd y swyddog y byddai'n trafod sylwadau'r aelodau gyda'r Prif Swyddog Ieuenctid.

Adroddodd y Rheolydd Comisiynu Strategol a Busnes ar dargedau a chynnydd gyda'r Cytundeb Canlyniadau ar gyfer y Gwasanaeth Teleofal am 2010/11.  Ni lwyddwyd i gwrdd â thargedau o ran y nifer o gyfeiriadau i'r Gwasanaeth, er cyfarfod yn llawn â'r targedau o ran perfformiad ar y prosiect rhanbarthol, perfformiad y gwasanaeth yn erbyn amserlenni a'r effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth. Roedd y diffyg i'w briodoli i absenoldeb staff a'r ffaith na fu modd gwyro staff o ddyletswyddau statudol eraill i ddarparu gwasanaeth wrth gefn.  Llwyddwyd i gwrdd â thargedau o ran gosod yr offer a gwnaed llawer o waith mewn perthynas â'r prosiect rhanbarthol.  Roedd y Swyddog yn falch o ddweud bod yr holl staff o'r ystafell reoli wedi eu trosglwyddo i'r Adain briodol yn llwyddiannus heb unrhyw ddiswyddiadau gorfodol.  Tynnwyd yn ôl y cynnig i sefydlu gwasanaeth ymateb nos oherwydd bod y grant perthnasol (CIC trwy gytundeb gyda BIPBC) wedi ei wyro i brosiect arall.  Dywedodd y Swyddog y canolbwyntir yn awr ar godi ymwybyddiaeth er mwyn cynyddu'r nifer o ddefnyddwyr oherwydd bod yr ymateb o du'r defnyddwyr cyfredol wedi bod yn gadarnhaol ac yn galonogol iawn.

Roedd y sylwadau ychwanegol a wnaed gan Aelodau yn cynnwys yr isod:-

- Pryder ynghylch methiant nifer o bartneriaethau strategol i gydweithredu, pwysleisiwyd bod angen nodi diffygion o'r fath yn gynnar;
- Yr angen i sgriwtini fod â rhan o'r cychwyn cyntaf yn y gwaith o bennu Cytundebau Canlyniadau;
- Dylai'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fonitro perfformiad cyffredinol yn erbyn y Cytundebau Canlyniadau fel rhan o'r adolygiadau monitro perfformiad chwarterol.
- Dylai'r Pwyllgor Sgriwtini perthnasol roi sylw i feysydd sy'n tanberfformio.

**PENDERFYNWYD cefnogi'r argymhelliad yn adroddiad y Swyddog a gweithredu'r sylwadau a amlinellir uchod fel argymhellion ffurfiol gan y Pwyllgor.**

**4  STRATEGAETH YMGYSYLLTIAD CYMUNEDOL**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) ynghyd â chopi o'r Strategaeth Ymgysylltiad Cymunedol (Drafft) ar gyfer 2011-2013 i'r Pwyllgor am sylwadau.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) fod y Cyngor wedi rhoi croeso brwd i'r flaenoriaeth o ran ymgysylltu gyda dinasyddion a'r gymuned, a hynny fel rhan allweddol o'r gwaith cynllunio strategol yng Nghynllun Busnes Corfforaethol y Cyngor am 2011-12.  Cydnabuwyd pwysigrwydd ymgysylltu gyda'r gymuned fel elfen allweddol i rannu blaenoriaethau'r dyfodol ac i sicrhau bod y Cyngor yn canolbwyntio ei ymdrechion ar sicrhau canlyniadau y mae trigolion yr Ynys yn dymuno eu cael.

Trafodwyd gwahanol ddulliau o ymgynghori gyda'r cyhoedd gan gynnwys strwythur sy'n seiliedig ar ardaloedd unigol gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, Ysgolion Uwchradd a dull partneriaeth trwy'r Heddlu ac ati.  Cydnabuwyd bod Adnewyddiad Democrataidd ac E-ddemocratiaeth yn rhan holl bwysig o'r strategaeth ac anogwyd yr Aelodau i edrych ar wefan newydd y Cyngor sydd wedi ei gwella'n sylweddol.  Yn ogystal, mae'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn asesu'r agweddau isod fel rhan o'i raglen ddarparu:-

- Hyrwyddo egwyddor ymgynghori mewn partneriaeth ar themâu penodol;
- Cydgysylltu gweithgareddau ymchwil ac ymgynghori ar draws partneriaethau a sefydlu cronfa ddata canolog
- Ystyried sefydlu panel dinasyddion neu arolwg "Omnibws"
- Comisiynu prosiectau ymchwil ar y cyd
- Datblygu sgiliau ymchwil canolog a fframwaith dadansoddol.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod yr anawsterau o ran ymgysylltu gyda'r gymuned gan bwysleisio'r angen i sicrhau y gofynnir i'r cyhoedd sut fath o ymgynghori y byddent yn ei groesawu. Cynhelir cyfarfod o'r Cynghorau Tref a Chymuned ym mis Medi a phwysleisir pwysigrwydd cydweithio yn y cyfarfodydd hynny. Un agwedd bwysig yr oedd yr aelodau yn teimlo y dylid rhoi sylw iddi oedd ateb gohebiaeth i'r Cyngor yn brydlon. Yn ogystal, dylid rhoi gwybod i'r cyhoedd bob blwyddyn am y pynciau y bydd y Cyngor yn ymgynghori yn eu cylch gan roi digon o rybudd iddynt ynghylch pa bryd a chyda phwy yr ymgynghorir. Ystyriwyd bod datblygu'r system e-ymgynghori newydd trwy direct.gov yn elfen bwysig wrth ymgysylltu gyda'r cyhoedd.

**PENDERFYNWYD y dylai'r Swyddog Cymorth a Chyswllt Sgriwtini gasglu sylwadau'r aelodau (gan gynnwys cysylltu gyda'r rheini nad ydynt yn y cyfarfod heddiw i roi cyfle iddynt gymryd rhan a chyflwyno sylwadau ar y Strategaeth) a bod y Swyddog yn paratoi adroddiad, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Pwyllgor hwn, i'w gyflwyno i'r Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) i'w gynnwys fel rhan o ymateb y Cyngor i'r Bwrdd Comisiynwyr.**

## 5 BLAENRAGLEN WAITH AR GYFER SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd a nodwyd er gwybodaeth – y Blaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar gyfer y cyfarfodydd a gynhelir ym Medi, Hydref a Thachwedd.

## 6 CYNLLUN GWEITHREDU'R UNED GYFIEITHU

Cyflwynwyd er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolydd Gwasanaethau Cyfieithu ynghylch y capasiti a'r adnoddau sydd ar gael yn yr Adain Gyfieithu.

Roedd sylwadau'r aelodau yn cynnwys yr isod:-

- Nid oeddynt yn feirniadol o'r gwasanaeth ond roeddent yn feirniadol o nifer y dogfennau a gyflwynwyd yn uniaith Saesneg yn ddiweddar;
- Roeddent yn cydnabod y baich gwaith ar yr Uned Gyfieithu;
- Roeddent yn ymwybodol o'r adroddiadau hwyr a'r effaith andwyol ar faich gwaith yr Adran;
- Dylid annog staff i gyfieithu eu hadroddiadau eu hunain a'u hanfon wedyn i'r Uned Gyfieithu i'w gwirio;
- Roedd yr Aelodau yn falch o nodi bod yr Adran Addysg yn cyfieithu'r rhan fwyf o'i dogfennau ei hun a chydnabuwyd bod hynny'n digwydd efallai oherwydd y diwylliant yn yr Adran honno, sef diwylliant Cymraeg yn bennaf;
- Roedd safon y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ardderchog a heb ei ail ledled Gogledd Cymru a thu draw i hynny.

Diolchodd y Rheolydd Gwasanaethau Cyfieithu i'r Aelodau am eu sylwadau. Esboniodd fod y Grwp Tasg Iaith wedi gofyn am adroddiad manwl ar gapasiti ac adnoddau yn yr Adain Gyfieithu ac y byddai'r adroddiad hwnnw yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod y Grŵp ym mis Medi. Roedd hi'n gwerthfawrogi'r cyllid ychwanegol o £7,000 yr oedd yr Adain wedi ei dderbyn tuag at gyflogi cyfieithwyr preifat. Byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gynorthwyo gyda gwaith cyfieithu ar y pryd oherwydd ei fod yn rhoi gwell gwerth am arian o gymharu â'r ffioedd a godir am waith cyfieithu ysgrifenedig.

Rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau bod yr Adain yn cwrdd â'i thargedau ac er bod adroddiadau hwyr ar gyfer rhaglenni cyfarfodydd yn achosi anawsterau mawr i'r Adain, roedd 50% o waith yr Uned yn waith ar gyfer y wefan, rhybuddion cyhoeddus ac ati. Roedd datblygu gwefan ddwyieithog y Cyngor wedi rhoi'r uned dan bwysau oherwydd y baich gwaith ychwanegol.

**PENDERFYNWYD:-**

**(i)** **derbyn yr adroddiad a diolch i'r Rheolydd Gwasanaeth Cyfieithu am ei mewnbwn a mynegi gwerthfawrogiad i'r Uned Gyfieithu am ei gwasanaeth ardderchog;**

**(ii)** **nodi y bydd adroddiad manwl ynghylch capasiti ac adnoddau yn yr uned yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Tasg Iaith ym mis Medi ac y bydd copi o'r adroddiad hwnnw ar gael i'r Aelodau o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.**

**(iii)** **Bod y Swyddog Cymorth a Chyswllt Sgriwtini yn cysylltu gyda'r Rheolydd Gwasanaethau Cyfieithu mewn 6 mis i ofyn a yw'n dymuno annerch y Pwyllgor hwn ymhellach.**

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**